

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion trydydd cyfarfod Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth am 10.30yb ar ddydd Mercher 23, Mai, 2012

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Siân Wyn Siencyn, Gwerfyl Roberts, Dr Dylan Foster Evans, Elin Haf Gruffydd Jones, Dr Carwyn Jones, Dr Eleri Pryce, Delyth Murphy, yr Athro Deri Tomos,

Aelodau (Canghennau): Gina Morgan, Phil Ainsworth, Dr Anwen Jones, Julie Brake, Dr Gwenno Ffrancon, Dr Enlli Thomas.

Aelodau (Myfyrwyr): Adam Jones

Aelodau (Colegau Cymru): Neb yn bresennol

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips, Dr Gwennan Schiavone, Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Chyflwyniad	1.1. Croesawyd yr aelodau i'r trydydd cyfarfod gan y Deon 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Aberystwyth am letya'r cyfarfod 1.3. Estynwyd llongyfarchiadau cynnes y Bwrdd Academaidd i ddau aelod o'r Bwrdd, Dr Enlli Thomas a Dr Carwyn Jones a briododd dros y Pasg.		
2. Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau gan Dr Siwan Davies, yr Athro Gwynedd Parry, yr Athro Densil Morgan, yr Athro Richard Wyn Jones, Dr Gwilym Roberts, Gwennan Owain, Lisa Lewis, Manon George, ac Alys Rosser 2.2. Doedd dim datganiadau o ddiddordeb pellach i'r rhai a nodwyd yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
3. Penodi Is-gadeirydd	3.1. Enwebwyd Delyth Murphy fel Is-Gadeirydd y Bwrdd Academaidd.		
4. Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd ar y 23ain o Dachwedd, 2011	4.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir. 4.2. Amlinellwyd y trefniadau dirprwyo ar gyfer yr aelodau sy'n cynrychioli Canghennau'r Coleg.		
5. Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	5.1. Cyflwynodd y Deon ac Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd drafft terfynol y Cynllun Academaidd Cenedlaethol 5.2. Nodwyd fod amrediad eang o ymatebion wedi eu derbyn gan nifer o Brifysgolion, unigolion a sefydliadau eraill. 5.3. Trafodwyd a chytunwyd y dylid datblygu'r drafft terfynol ymhellach parthed y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'n ddiamwys yn nghyflwyniad y Cynllun gweledigaeth genedlaethol y Cynllun • Cynnwys Colegau Addysg Bellach yn y cyflwyniad • Nodi fod gan y Coleg ddiddordeb dilyn ym materion ansawdd, tra'n cadw'r cyfeiriad presennol ar y Prifysgolion unigol parthed materion ansawdd • Adlewyrchu gwahanol batrymau gwaith wrth son am 'gyflogwyr' • Nodi'n fwy eglur fod angen cyllunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr llai rhugl. • Nodi dyletswydd statudol Prifysgolion i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg sydd ag anawsterau dysgu. • Cyflwyno manylion pellach am y pynciau fel atodiad neu ôl-nodiadau • Nodi'n glir y gall aelod o staff gyfrannu at fwy nag un pwnc, neu yn wir fwy nag un clwstwr • Nodi y bydd y lleoliadau fesul pwnc yn cael eu cytuno a'u cyhoeddi fel atodlen ffurfiol • Nodi diffiniad fwy eglur o 'bwnc' tua diwedd y ddogfen 	Y Deon a'r Ysgrifennydd i gyflwyno'r Cynllun Academaidd gyda'r newidiadau yma i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg er mwyn ei gymeradwyo.	Mehafin 2012

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>(tudalennau 29-30)</p> <p>5.4. Nodwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ym mis Mehefin. Nodwyd y bydd cyfle wedyn i Brifysgolion ymateb i gylchlythyr ffurfiol yn nodi'r broses cynllunio pynciol dros yr Haf.</p> <p>5.5. Nodwyd ymhellach y bwriad i lansio'r Cynllun Academaidd ym mis Medi 2012.</p>		
6. Paneli Pwnc	<p>6.1. Derbyniwyd papur yn amlinellu rôl Paneli Pwnc y Coleg.</p> <p>6.2. Nodwyd fod angen ystyriaeth lawn i gynrychiolaeth myfyrwyr ar y paneli pwnc.</p> <p>6.3. Nodwyd fod angen sicrhau presenoldeb a mewnbwn darlithwyr a gyllidir y Coleg, tra'n sicrhau hefyd presenoldeb priodol o'r Prifysgolion sydd a'r awdurdod i siarad ar ran eu hadrannau.</p> <p>6.4. Nodwyd fod angen gosod y disgwyliad yn eglur parthed aelodau o'r Paneli Pwnc ac y dylid cylchredeg y ddogfen, wedi ei hadolygu, ac ar ffurf cylchlythyr swyddogol y Coleg, i Uwch Rheolwyr perthnasol y sefydliadau a'r Adrannau / Ysgolion unigol.</p>	<p>Ystyried y dull mwyaf addas ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr ar y Paneli Pwnc</p> <p>Cylchredeg dogfen diwygiedig i'r Prifysgolion</p>	<p>Medi 2012</p> <p>Gorffennaf 2012</p>
7. Newidiadau i'r Cynllun Staffio a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil	<p>7.1. Derbyniwyd papur yn argymhell newidiadau i'r Cynllun Staffio a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil.</p> <p>7.2. Nodwyd y newidiadau i'r Cynllun Staffio a'r angen i ddyfarniadau'r Cynllun fod yn gyson gyda Chynllun Academaidd y Coleg.</p> <p>7.3. Nodwyd y bwriad i gynnig cefnogaeth ychwanegol priodol ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys costau ychwanegol – yn benodol ymchwil ym maes y Gwyddorau. Cytunwyd ar yr angen mewn egwyddor i sicrhau fod cefnogaeth priodol yn cael ei ddarparu i bob myfyriwr ymchwil a gyllidir gan y Coleg, ond nodwyd fod angen gwaith ar fanylder y cynigion oherwydd y gall fod angen symiau sylweddol o arian er mwyn cwrdd a'r gofyniad yn llawn.</p> <p>7.4.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
8. Tystysgrif Genedlaethol Sgiliau Iaith	<p>8.1. Derbyniwyd adroddiad ar y Ddystysgrif Cenedlaethol sgiliau iaith. Nodwyd y bydd hi'n ofynnol i fyfyrwyr sydd yn derbyn gan ysgoloriaeth gan y Coleg i gofrestru ar gyfer y Dystysgrif.</p> <p>8.2. Nodwyd fod cynllun peilot yn rhedeg ar hyn o bryd ac y byddai'r cynllun peilot yn cael ei adolygu yn ffurfiol ym mis Gorffennaf.</p> <p>8.3. Codwyd rhai cwestiynau penodol am lefel y dystysgrif ond cadarnhawyd bod ymgynghoriad llawn yn diwydd ar y materion hyn ac y byddai pecyn o adnoddau cefnogol i fyfyrwyr yn cael ei ddatblygu.</p>		
9. Cynllun Astudiaethau Rhan Amser	<p>9.1. Derbyniwyd adroddiad ar y Cynllun Astudiaethau Rhan Amser.</p> <p>9.2. Nodwyd fod Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu a fydd yn cyfarwyddo'r Cynllun a bod darlithydd wedi ei (h)apwyntio i ymgymryd a'r gwaith academaidd.</p> <p>9.3. Gofynwyd am fwy o eglurdeb parthed natur y cynllun a sut mae'n gwahaniaethu oddi wrth cyfleoedd eraill sydd eisoes ar gael i astudio rhan amser.</p> <p>9.4. Cytunwyd i ddarparu adroddiad pellach i gyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Hydref.</p>	<p>Paratoi adroddiad ar y Cynllun Rhan Amser</p>	<p>Hydref 2012</p>
10. Geiriadur Prifysgol Cymru	<p>10.1. Nodwyd cefnogaeth y Bwrdd Academaidd i barhad Geiriadur Prifysgol Cymru.</p> <p>10.2. Penderfynwyd ysgrifennau at y Comisiynydd Iaith i ddatgan ein cefnogaeth a gofyn iddi weithredu ar fyrder i sicrhau parhad y Geiriadur</p>	<p>Deon i ysgrifennu i'r Comisiynydd Iaith</p>	<p>Gorffennaf 2012</p>
11. Materion y Myfyrwyr	<p>11.1. Trafodwyd cynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd.</p> <p>11.2. Nodwyd y bydd cyfarfod yn digwydd yn fuan er mwyn trafod ymhellach cynrychiolaeth myfyrwyr oddi fewn i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.</p>		
12. Tymor Gwasanaethu Aelodau'r Bwrdd	<p>12.1. Derbyniwyd papur yn nodi tymor gwasanaethu aelodau'r Bwrdd a benodir gan y Coleg. Nodir y gallai aelodau gael</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
Academaidd	<p>eu hail enwebu</p> <p>12.2. Nodwyd y byddai aelodaeth Dylan Foster Evans, Gwilym Dyfri Jones, Densil Morgan ac Eleri Pryse yn dod i ben yn Gorffennaf 2013; Carwyn Jones, Richard Wyn Jones, Delyth Murphy a Gwerfyl Roberts yn dod i ben yn 2015; a Elin Haf Gruffydd Jones, Siwan Davies, Gwynedd Parry a Deri Thomas yn dod i ben yn 2017.</p>		
13. Pwyntiau Gweithredu	<p>13.1. Cwblhawyd y pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.</p> <p>13.2. Nodwyd fod gohebiaeth wedi ei ddanfon at UCAS ac y byddai'r Coleg yn sicrhau fod gan Adam Jones y cyfle i fod yn rhan o unrhyw drafodaethau gyda Peter Evans o UCAS.</p>		
14. Modiwlau leithoedd Modern	<p>14.1. Nodwyd fod cwestiwn wedi codi parthed canran modiwl leithoedd Modern a addysgir yn Gymraeg. Penderfynwyd mai nodi'r cydbwysedd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y modiwl sydd angen gwneud wrth ddynodi canran modiwl i HESA, ac felly pe byddai modiwl yn cael ei addysgu yn Gymraeg a Ffrangeg yn unig, dylid nodi'r modiwl hynny fel modiwl 100%.</p> <p>14.2. Nodwyd y bydd y Coleg yn darparu mwy o arweiniad parthed cofnodi modiwlau cyfrwng Cymraeg maes o law.</p>		
15. Cyfarfod nesaf.	<p>15.1. Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngaerfyrddin ar yr 17eg o Hydref, 2012</p>		